# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Penderyn

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gymraeg Penderyn yn gymuned hapus a chroesawgar sy'n rhoi pwyslais cyson ar les a datblygiad disgyblion a staff. Mae'r ethos cynhwysol a theuluol yn sicrhau bod disgyblion yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohono ei hun, y staff a'r disgyblion. Mae wedi sefydlu prosesau hunanwerthuso effeithiol, sy'n galluogi gwelliannau yn y ddarpariaeth ar gyfer lles a dysgu disgyblion. Mae'r llywodraethwyr yn chwarae rôl fuddiol a chefnogol yn yr ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu.

Mae'r staff yn darparu cwricwlwm ysgogol sy'n cefnogi llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd da yn eu medrau dros amser. Mae athrawon yn cynllunio ystod o brofiadau cyfoethog a gweithgareddau diddorol sy'n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Ar adegau, mae tueddiad i ychydig o staff orarwain y gweithgareddau sy'n cyfyngu ar allu disgyblion i wneud dewisiadau mwy annibynnol am eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn frwd ar draws yr ysgol ac maent yn ymdrechu'n rheolaidd i gyfathrebu'n gynyddol hyderus mewn amrywiol gyd-destunau. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i adborth llafar staff ac yn ei ddefnyddio i wella eu dysgu yn hyderus. Er hyn, nid yw sylwadau athrawon bob amser yn cefnogi disgyblion i wella eu gwaith yn ddigon llwyddiannus.

Mae staff yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ymysg disgyblion yn llwyddiannus, sy'n eu cefnogi i ddangos parch a chwrteisi tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r gymuned leol ac ardaloedd tu allan er mwyn datblygu medrau corfforol a chreadigol disgyblion yn fwriadus. Mae gan y pennaeth a'r staff berthynas waith gadarnhaol a threfniadau cyfathrebu effeithiol â'r rhieni.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Cysoni'r cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau mwy annibynnol am eu dysgu

A2 Sicrhau bod athrawon yn darparu adborth buddiol a chyson sy'n cefnogi disgyblion i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu er mwyn gwella eu gwaith

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/08/2025